

Cyfarfod y Gweinidog Addysg â'r Trydydd Sector

Dydd Mercher 5 Chwefror 2020

12:00-13:00

Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Llywodraeth Cymru:

Kirsty Williams AC – Gweinidog Addysg (GA)

Dewi Knight – Cynghorydd Polisi Arbenigol (DK)

Joanna Valentine – Pennaeth Asesu a Phrofion

Nicola Edwards – Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar (NE)

Maxine Chichester – Pennaeth y MDPH Iechyd a Lles

Matthew Mithan – Rheolwr Busnes y Llywodraeth AGC

Y Trydydd Sector:

Anna Nicholl – CGGC

Bonnie Hall – Busnes yn y Gymuned

Mia Rees – Prince's Trust Cymru

Catrin James – Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

Susie Ventris-Field – Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Lynne Hill – Plant yng Nghymru

Jenifer James – Oxfam Cymru

Ginger Wiegand – Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

Cath Lewis – Plant yng Nghymru

Elin Maher – Mentrau Iaith Cymru

Ben Lloyd – CGGC / Achub y Plant

Eitem 1 – Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

GA – Roedd pob cam gweithredu wedi'i gwblhau ac roedd pawb wedi cytuno ar y cofnodion.

Eitem 2 – Y Cwricwlwm Newydd

GA - Eglurodd sut y byddai'r cwricwlwm newydd yn cael ei roi ar waith ac amlinellodd yr amserlenni dan sylw. Byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar y cwricwlwm Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn sicrhau bod pob rhiant ac athro yn gwybod yn union beth fyddai'n cael ei addysgu. Byddai canllawiau mwy datblygedig hefyd ar leoliadau Blynyddoedd Cynnar, yn ogystal â sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn ystyried dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a dysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

DK – Amlinellodd pa ganllawiau y byddai'r Llywodraeth yn eu cyhoeddi mewn perthynas â dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

GA – Mae'n bwysig sicrhau bod cynllun gweithredu yn barod ar gyfer ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol erbyn diwedd mis Ebrill.

Trydydd Sector – Angen sicrhau bod arweinwyr Awdurdodau Lleol yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd. Croesawyd y broses a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad diweddar ar y cwricwlwm newydd, ac roedd hi'n dda iawn gweld y pwyslais ar gymwysterau er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cyfeirio tuag at y sectorau cywir. Yn ogystal, pwysleisiwyd pwysigrwydd integreiddio sgiliau yn y cwricwlwm newydd yn briodol. Roedd risg uchel y byddai'r Trydydd Sector yn newid yn y dyfodol. Pa sicrwydd y gallai'r Gweinidog ei roi y byddai Sefydliadau yn y Trydydd Sector yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru pe bai angen?

GA – Byddai'r Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw gais gan y Trydydd Sector, ond ni ellid rhoi unrhyw sicrwydd y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw gyllid ar ei phen ei hun.

Trydydd Sector – Hapus i gynorthwyo Llywodraeth Cymru â chyfeiriad strategol y cwricwlwm newydd, ond codwyd pryderon am sut y byddai Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael eu diwallu. Roedd angen sicrhau bod gan bob athro ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd ei angen i ddiwallu ADY yn effeithiol ac y gallai'r cwricwlwm newydd gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

GA – Cynlluniwyd y cwricwlwm newydd i fod yn fwy cynhwysol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Roedd ADY yn ffactor pwysig gan ei bod yn ymddangos bod diffyg dealltwriaeth ar hyn o bryd gyda'r cod presennol.

Trydydd Sector – Un maes yr oedd angen i'r cwricwlwm newydd roi sylw iddo oedd dysgwyr a oedd wedi'u heithrio o'r ysgol ar hyn o bryd o ganlyniad i'r ffordd roedd ADY yn cael eu trin.

GA – Tynnodd sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £8 miliwn mewn ADY, yn ogystal â sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd i fynd i'r afael â hyn.

- **Cam Gweithredu – Gofynnodd y Trydydd Sector am gyfarfod ar wahân gyda'r Gweinidog i drafod ymhellach. Gwahoddodd y Gweinidog y Trydydd Sector i wneud cais ysgrifenedig ffurfiol am y cyfarfod.**

Trydydd Sector – Gallai dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg fod o dan anfantais weithiau am mai dim ond yn Saesneg roedd deunyddiau dysgu ar gael. A oedd sylw'n cael ei roi i'r mater hwn wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith?

GA – Mae angen rhoi pwysau ar Gymwysterau Cymru mewn perthynas â'r mater hwn. Mae'n briodol bod dysgwyr yn cael eu hasesu yn yr iaith y cânt eu haddysgu ynddi. Mae'n bwysig bod gwasanaethau dwyieithog ar gael i bawb. Angen creu strwythur a oedd yn golygu ein bod yn gallu rheoli hyn a sicrhau bod cyfieithiadau perthnasol ar gael. Roedd angen dull gweithredu gwahanol ac roedd angen i ni ddefnyddio'r sgiliau sydd ar gael i ni er mwyn cyflawni hyn.

Trydydd Sector – Roedd sefydliadau addysg yn y Trydydd Sector a allai helpu gyda dysgu proffesiynol a chynnig gwasanaethau gyda bwriadau da. Mae'n bwysig cefnogi ysgolion i ddod yn fwy agored i'r hyn sydd ar gael yn y gymuned ehangach.

GA – Roedd ysgolion yn cael llif o gynigion yn rheolaidd gan y gymuned. Roedd gwybodaeth bwysig ar gael i ysgolion yn amlinellu canllawiau arfer da. Roedd Llywodraeth Cymru yn edrych eisoes ar beth y gellid ei gynnwys ar Hwb er mwyn mynegi pwyntiau perthnasol yn well.

Trydydd Sector – Roedd y cwricwlwm newydd yn gyfle i ddatblygu a chefnogi busnesau drwy ymgysylltu â chyflogwyr mewn ysgolion.

GA – Roedd Estyn wrthi'n edrych ar y mater hwn a byddai'n cyhoeddi adolygiad yn fuan.

Eitem 3 – Dysgu yn y Blynyddoedd Cynnar

Trydydd Sector – Roedd y Blynyddoedd Cynnar yn sector tameidiog iawn gyda materion trawsbynciol pwysig ar draws Llywodraeth Cymru. Roedd y Gweinidog eisoes wedi dweud y byddai mwy o ganllawiau ar gael i'r holl Awdurdodau Lleol, ond sut roedd adran y Gweinidog wedi bod yn cydlynu polisiau'r Blynyddoedd Cynnar ar draws y Llywodraeth?

GA – Roedd hi'n bwysig sicrhau bod gweithgarwch y Blynyddoedd Cynnar a'r cynnig Dechrau'n Deg yn cael eu cydlynu. Roedd y Blynyddoedd Cynnar yn benodol yn thema bwysig i Lywodraeth Cymru. Roedd gwaith yn mynd rhagddo â naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn trefnu'r gwaith ar draws adrannau. Dylai rhagor o ganllawiau fod ar gael yn fuan. Parhau i fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant. Byddai Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddyblu hefyd er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael ar gam cynnar ym mywyd plentyn.

NE – Eglurodd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar dwf y sector Blynyddoedd Cynnar. Angen annog cynifer â phosibl i fanteisio ar y ddarpariaeth.

Trydydd Sector – Roedd gan lawer o Awdurdodau Lleol ledled Cymru feysydd portffolio gwahanol o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a allai beri dryswch.

NE – Gwelwyd newid mewn perthynas â hyn yn barod, yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad y caiff gweithgarwch ei seilio ar un system Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar. Byddai'r sefyllfa bresennol yn cael ei hadolygu a byddai'r Trydydd Sector yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- **Cam Gweithredu – Nicola Edwards i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i CGGC am y ffordd ymlaen o ran Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar a chamau gweithredu ar draws y blynyddoedd cynnar.**

Eitem 4 – Mynediad at Ddysgu Gydol Oes

Trydydd Sector – Roedd yr hawl i ddysgu gydol oes wedi cael ei hymgorffori'n dda iawn yn y cwricwlwm newydd. Roedd angen ffocws ar fwy o ddysgu sifil.

GA – Eglurodd fod Bil ar ddod a fyddai'n edrych ar sut y gallem gael un sefydliad i edrych ar y sector cyfan. Y nod oedd bod popeth yn cael ei gynnwys mewn un prif gorff ac ystyried beth mae'r hawl i ddysgu gydol oes yn ei olygu. Bu cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn astudio'n rhan amser yn ogystal ag ar lefel Meistr, ac roeddem wedi bod yn trafod ag Addysg Oedolion Cymru er mwyn ceisio cynyddu nifer y dysgwyr. Mae'n bwysig sicrhau bod hon yn hawl gyffredinol i bawb.

Yna daeth y cyfarfod i ben.